

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Gweithdrefn ar gyfer Sgrinio Ymgeiswyr a Dysgwyr sy'n Gyn-droseddwyr

Cwmpas a Diben

- 1.1 Diben y weithdrefn hon yw sicrhau bod ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol heb eu disbyddu yn cael pob cyfle i ddilyn cwrs priodol yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ar yr amod y gall y Coleg gynnal ei ddyletswydd i ddarparu amgylchedd diogel i'w ddysgwyr, staff ac ymwelwyr.
- 1.2 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob ymgeisydd llawn amser a rhan amser sydd ag euogfarnau troseddol heb eu disbyddu fel y'u diffinnir gan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974). Mae rhai proffesiynau wedi'u heithrio o'r Ddeddf hon ac o ganlyniad gall euogfarnau heb eu disbyddu effeithio ar allu unigolyn i ymrestru ar gyrsiau penodol.
- 1.3 Mae datgelu euogfarnau heb eu disbyddu yn amod ymrestru ac ailymrestru a bydd yn ofynnol i ddysgwyr ddatgelu euogfarnau heb eu disbyddu yn barhaus.

Gweithdrefn

Mae'r Coleg yn ymroddedig i adsefydlu troseddwyr ac yn cefnogi eu hawl i addysg. Felly bydd y Coleg yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol yn cael pob cyfle i elwa o'r rhaglenni astudio ar yr amod y gall sicrhau ei ymrwymiad diogelu i'r Coleg cyfan.

Datgelu euogfarnau ar y ffurflen gais

Dim ond os nad yw wedi ei disbyddu y mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgelu euogfarn droseddol ar y ffurflen gais a'r ffurflen ymrestru. Dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) gellir ystyried unrhyw euogfarn droseddol yn un wedi ei disbyddu ar yr amod bod:

- Cyfnod penodedig wedi mynd heibio ers yr euogfarn ac nad yw'r ymgeisydd wedi ail-droseddu yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r cyfnodau amser penodol wedi'u dogfennu yn y ddogfen atodol sy'n amlinellu Deddf Adsefydlu Troseddwyr (1974).
- Nid oedd yr euogfarn yn cario dedfryd a eithriwyd o'r Ddeddf, er enghraifft, dedfryd o garchar o fwy na 2 ½ flynedd.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Influential.
www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07 Medi 22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07 Medi 24

- Mân droseddau moduro: Nid oes angen datgelu'r rhain ar ffurflen gais y Coleg.

Gweithdrefnau a Chanllawiau Asesu Risg

- Bydd y Coleg yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Troseddu Ieuencid a phartneriaid priodol eraill yn y gymuned i gynnal asesiad risg teg a thrylwyr ar gyfer ymgeiswyr ag euogfarnau heb eu disbyddu (Atodiad 1).
- Anfonir ffurflen Datgelu Cofnod Troseddol gyda llythyr eglurhaol at ymgeiswyr sy'n datgelu euogfarn heb ei disbyddu ar unrhyw gam o'r broses dderbyn (Atodiad 2).
- Anfonir un nodyn atgoffa at ymgeiswyr nad ydynt yn ymateb i ddychwelyd y ffurflen ac os na fyddant yn ymateb, byddant yn cael hysbysiad ysgrifenedig o fwriad y Coleg i dynnu eu cais yn ôl.
- Ni fydd unrhyw ymgeisydd yn cael ei ymrestru yn y Coleg heb ddychwelyd y ffurflen ac, os yw'n briodol, asesiad risg.
- Mewn achosion lle methir â datgan euogfarn heb ei disbyddu sydd yn dod i'r amlwg wedi hynny, gallai arwain at ofyn i'r dysgwr adael y coleg.

Datgelu Euogfarnau yn ystod y Cyfweiliad Derbyn a Gwiriadau DBS

Er nad oes angen datgelu euogfarnau 'wedi'u disbyddu' ar y ffurflen gais neu ymrestru, bydd angen i ymgeiswyr ar gyfer rhai cyrsiau Coleg ddatgelu pob euogfarn droseddol yn y cyfweiliad derbyn. Gofynnir i ymgeiswyr yn ystod y broses dderbyn wneud cais am ddogfen datgeliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar eu cost eu hunain.

Bydd angen hyn ar gyfer cyrsiau:

- Sy'n arwain at broffesiynau sydd wedi'u heithrio gan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwr, er enghraifft; addysgu, Gwaith Cymdeithasol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Proffesiwn Cyfreithiol.
- Mae hynny'n cynnwys cyswllt â phobl ifanc a/neu oedolion bregus neu ymgymryd â gweithgaredd rheoledig o fewn ystyr Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, Deddf yr Heddlu 1997 a Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000.

Rhaid i ymgeiswyr am gyrsiau o'r fath **ddatgelu pob euogfarn**, gan gynnwys euogfarnau

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Influential.
www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07 Medi 22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07 Medi 24

wedi'u disbyddu, rhybuddion, gan gynnwys rhybuddion llafar, ceryddon, rhybuddion terfynol a rhybuddion rhwymo. Gallai methu â datgelu'r euogfarnau hyn yn ystod y cyfnod derbyn arwain at wrthod cais yn ddiweddarach.

Datgelu ar ôl dechrau cwrs

Rydym yn cynghori pob ymgeisydd i ddatgelu euogfarnau cyn cofrestru fel y disgrifir uchod i'n galluogi i gwblhau unrhyw asesiad risg cyn dechrau'r cwrs. Os yw myfyriwr yn datgelu ar ddechrau'r cwrs, byddwn yn dilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir uchod. Yn dibynnu ar natur y drosedd, efallai y byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr atal ei astudiaethau neu dynnu'n ôl o'r Coleg, hyd nes y ceir canlyniad unrhyw asesiad risg.

Arweiniad gyrfaoedd proffesiynol a diduedd

Yn unol ag ymrwymiad y Coleg i ragoriaeth mewn Addysg ac Arweiniad Gyrfaoedd, bydd ymgeiswyr sy'n datgelu euogfarnau troseddol yn cael eu hysbysu o effaith debygol y rhain ar y llwybr gyrfa a ddewiswyd. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr y bernir nad ydynt yn risg i gymuned y Coleg barhau i gyflawni'r rhaglen astudio honno os oes ganddynt amcanion heblaw ceisio cyflogaeth yn y proffesiwn penodol hwnnw.

Anghenion cymorth cyn-droseddwyr

Mae'r Coleg yn ymdrechu i ddarparu ystod o wasanaethau cymorth arbenigol i'w ddysgwyr ac yn ystyried y broses asesu risg fel cam hanfodol wrth asesu'r ystod o anghenion a all fod gan gyn-droseddwyr. Felly mae'r cyfweiliad asesu risg yn rhoi cyfle gwych i drefnu unrhyw gymorth angenrheidiol ar y dechrau i roi'r cyfle gorau posibl i ymgeiswyr lwyddo ar y cwrs dewisol.

Cyfrinachedd a Diogelu Data

- Bydd asesiadau risg yn cael eu cynnal mewn modd sensitif, synhwyrol a chyfrinachol, gan ystyried anghenion pawb dan sylw. Bydd rhannu gwybodaeth sensitif yn cael ei wneud ar sail 'angen gwybod' yn unig.
- Bydd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel, dim ond uwch staff y Coleg fydd yn cael mynediad atynt a byddant yn cael eu dinistrio pan fydd dysgwr yn cwblhau ei gwrs neu'n gadael y Coleg, pa bynnag un yw'r cynharaf, neu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd y bydd ei euogfarn yn cael ei disbyddu.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i drin defnyddwyr ei wasanaethau yn deg, waeth beth fo'u hil, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd corfforol/meddyliol neu gefndir troseddol. Rydym yn hyrwyddo'n ymarferol cyfle

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07 Medi 22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07 Medi 24

cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan ystod amrywiol o unigolion gan gynnwys rhai ag euogfarnau troseddol. Dewisir ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau ar sail eu sgiliau, eu cymwysterau a'u profiad ac nid ar eu cefndir neu eu hamgylchiadau personol.

- Ni fydd euogfarn droseddol yn atal unigolyn rhag astudio yn y Coleg, ar yr amod nad yw'n peri risg i gymuned y Coleg.
- Ysgrifennwyd y weithdrefn hon gan ystyried canllawiau ar asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac arferion gorau NACRO.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Mae goblygiadau iechyd a diogelwch sylweddol i'r Polisi hwn ac mae'r Coleg yn cadw'r hawl i gynnwys y Rheolwr Iechyd a Diogelwch ar y paneli asesu risg i'r rhai sy'n datgelu euogfarnau heb eu disbyddu.

Polisiau Cysylltiedig

- Derbyniadau
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu
- Addasrwydd i Astudio
- Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelu Data
- Addysgu, Dysgu ac Asesu
- Ansawdd

Safonau'r Gymraeg

Mae'r weithdrefn hon yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg h.y. ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Canllawiau ar gyfer Asesu Risg Cyn-droseddwyr
- Derbyniadau
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Gweithdrefn Diogelu Data
- Diogelu

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Influential.
www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07 Medi 22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07 Medi 24

Atodiadau'r Weithdrefn

Atodiad 2- Ffurflen Asesu Risg (ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi datgelu euogfarn droseddol)

Atodiad 2- Cwestiynau Cyffredin

Atodiad 3 - Ffurflen Datgelu Cofnodion Troseddol - Ffurflen Gychwynnol i Ymgeiswyr yn dilyn Datgeliad

Lleoliad a Mynediad at y Polisi

Mae hwn ar gael ar y wefan/ mewnwyd staff/ Moodle, ac efallai na fydd yn gyfredol os yw wedi'i argraffu.

Dyddiad cymeradwyo: 06/07/2011	Rheolwr sy'n Gyfrifol: Prif Gynorthwyydd, Taith y Dysgwr
Cymeradwywyd gan: QSB	Arweinydd Gweithredol: Is-Bennaeth, Taith y Dysgwr ac Ansawdd
Dyddiad adolygu: 07/09/2024	Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Influential.
www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07 Medi 22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07 Medi 24

Atodiad 1: Ffurflen Asesu Risg 2022-23 (ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi datgelu euogfarn droseddol)

CRD RISK MATRIX

[illegible]

Head of Additional Learning Needs & Wellbeing.....

Dean of Quality Improvement.....

Safeguarding Co-ordinator.....

		SEVERITY			
		ACCEPTABLE	TOLERABLE	UNDESIRABLE	INTOLERABLE
		LITTLE TO NO EFFECT ON COLLEGE, LEARNERS OR STAFF	EFFECTS ARE FELT, BUT MANAGABLE WITH CONTROL MEASURES	SERIOUS IMPACT TO THE COLLEGE, LEARNERS OR STAFF	RISK TOO MUCH TO MANAGE FOR COLLEGE, STAFF AND LEARNERS
LIKELIHOOD	IMPROBABLE RISK IS UNLIKELY TO OCCUR	LOW - 1 -	MEDIUM - 4 -	MEDIUM - 6 -	HIGH - 10 -
	POSSIBLE RISK WILL LIKELY OCCUR	LOW - 2 -	MEDIUM - 5 -	HIGH - 8 -	EXTREME - 11 -
	PROBABLE RISK WILL OCCUR	MEDIUM - 3 -	HIGH - 7 -	HIGH - 9 -	EXTREME - 12 -

RISK TYPE
ROLE MODELING FOR LEARNERS
DAMAGE TO REPUTATION OF COLLEGE GROUP
INAPPROPRIATE COURSE CHOICE
RISK TO LEARNERS
RISK TO STAFF AND ALLIED PARTNERS
DAMAGE TO PROPERTY/RESOURCES/FINANCES
HIGH PROFILE OFFENDER/ KNOWN IN LOCAL COMMUNITY
NATURE OF OFFENCE DISCLOSED
ENGAGEMENT WITH STATUTORY SERVICES
WORK EXPERIENCE PLACEMENTS
ACCESS TO IT/INTERNET
ACCESS TO VOCATIONAL RESOURCES (WORKSHOPS ETC)
AVAILABLE RESOURCES AGAINST RISK
PROPENSITY/PATTERN OF OFFENDING
LACK OF REMORSE

RISK SEVERITY KEY
ACCEPTABLE
TOLERABLE
UNDESIRABLE
INTOLERABLE

RISK LIKELIHOOD KEY
IMPROBABLE
POSSIBLE
PROBABLE

RISK LEVEL KEY
LOW
MEDIUM
HIGH
EXTREME

CONTROL MECHANISM
MAPPA CORE GROUP LEARNER
PROBATION RISK LEVEL
WORKING WITH EXTERNAL AGENCIES (PROBATION, POLICE, YOUTH OFFENDING, SOCIAL SERVICES)
INTERNAL SUPPORT MECHANISMS (ALN, WELLBEING)
LENGTH OF TIME SINCE OFFENCE
SAFETY PLAN

Atodiad 2: Cwestiynau Cyffredin 2022-23 (ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi datgelu euogfarn droseddol)

Datgelu Cofnod Troseddol -

Cwestiynau Cyffredin

Sut fydd fy nata yn cael ei drin?

1. Bydd y manylion y gofynnir amdanynt ar y ffurflen hon yn cael eu trin yn sensitif ac yn hollol gyfrinachol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth gysylltiedig.

Beth yw'r broses ar gyfer asesu fy natgeliad?

1. Bydd y wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei phrosesu i ddechrau gan aelod dynodedig o'r fîm Gwasanaethau Myfyrwyr sy'n gyfrifol am ddatgeliadau Cofnod Troseddol.
2. Bydd yr aelod dynodedig o'r fîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn hysbysu'r fîm Diogelu a fydd, os yw'n briodol, o ystyried natur y datgeliad, yn cynnal asesiad risg.
3. Os bernir bod angen asesiad risg, bydd un o'r canlyniadau dilynol yn digwydd;

- Rydym yn gallu prosesu eich cais.
- Rydym yn gallu ystyried eich cais ar yr amod eich bod yn cytuno i rai amodau neu gefnogaeth.
- Nid ydym yn gallu ystyried eich cais ar hyn o bryd.

Beth ddylwn ei wneud os wyf yn gweithio gyda'r gwasanaeth prawf neu unrhyw wasanaeth statudol arall?

1. Mae'n bwysig os ydych chi'n gweithio gyda'r gwasanaeth prawf, y fîm troseddu ieuenctid neu unrhyw asiantaeth statudol arall, neu'n cael eich goruchwyllo ganddynt, eich bod chi'n siarad â nhw am eich bwriad i astudio yn y coleg ac yn dangos y ffurflen ynghlwm iddyn nhw.

Ble allaf i ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

1. Mae gan yr elusen, NACRO, ystod o wybodaeth ar gael ar ei gwefan ac mae'n cynnig cyngor cyfrinachol. Gallwch gysylltu â NACRO drwy fynd i www.nacro.org.uk, anfon e-bost at helpline@nacro.org.uk neu ffonio 0300 123 1999.

Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn dychwelyd y ffurflen hon?

1. Ni fydd unrhyw gais yn mynd ymlaen i ymrestru yn y coleg nes bydd y ddogfen hon yn cael ei dychwelyd ac os yw'n briodol, bod asesiad risg yn cael ei gynnal. Mae'r coleg yn cadw'r hawl i dynnu'ch cais yn ôl os na ddychwelir y ffurflen.

I ble ddylwn i ddychwelyd y ffurflen hon?

1. Gallwch ddychwelyd y ffurflen hon mewn dwy ffordd.

2. Drwy'r post at:

Julie Babb
Recriwtio a Derbyniadau
Coleg Caerdydd a'r Fro
Campws Canol y Ddinas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5FE



3. Drwy e-bost at: JBABB@cavc.ac.uk

Atodiad 3 – Ffurflen Gychwynnol i Ymgeiswyr yn dilyn datgeliad..

Criminal Record Disclosure Form

Please complete all the sections below

1

Full Name:	
Date of Birth:	
Course Applied for:	

2

Please give details of all unspent offences for which you have been convicted. (Please include dates and any prosecution which you are currently facing)
If you are applying for a course leading to work with children (under 18), vulnerable adults, social services, uniformed services or the health service, please also provide information on any spent convictions
If you are on probation at the moment, please give us permission to discuss your case with your: Probation Officer, Drugs Worker, Youth Offending Officer, or any other appropriate person
Details of person to contact:
Address of person to contact:
Telephone number:

3

I give you permission to discuss my case with the person named above as necessary	Yes		No	
---	-----	--	----	--

I declare that to the best of my knowledge and belief, everything documented in this form is accurate and up-to-date. I also authorise Cardiff and Vale College to make an application to obtain all previous convictions, should they be required.

Signed:**Date:**